

MEDDWL YMLAEN T1

CYLCHLYTHYR MAI 2026



Seren YLABBER

Y mis hwn, ein Seren YLABBER yw Tammim.

Er bod Tammim yn newydd i'r YLAB, mae eisoes wedi gwneud cyfraniad gwych ac wedi bod yn weithgar iawn ym mhob prosiect y mae wedi bod yn rhan ohono. Mae bob amser yn barod i rannu ei farn a'i syniadau, ac rydym wrth ein bodd yn gweld hynny yn ystod ein cyfarfodydd.

Gweithiodd Tammim yn arbennig o galed yn ystod WellFest eleni, gan ymgymryd ag unrhyw dasg a gyflwynwyd iddo, a hynny bob amser gyda gwên ar ei wyneb. Llongyfarchiadau mawr i Tammim am y gwaith rhagorol y mae wedi bod yn ei wneud yn yr YLAB.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda Tammim, ynghyd â gweddill aelodau'r YLAB, ar lawer o brosiectau cyffrous yn y dyfodol.

WellFest 2026

Roedd WellFest 2026 yn llwyddiant ysgubol. Er mai diwrnod gwlyb iawn oedd hi, ni wnaeth hynny atal y nifer fawr o bobl a ddaeth i'r digwyddiad. Roedd yn bleser gweld cymaint yn mynychu, yn ogystal â'r holl sefydliadau a pherfformwyr a ddaeth i gefnogi'r diwrnod ac a gyfrannodd at greu awyrgylch bywiog a chroesawgar.

Diolch yn fawr i bawb a fu'n rhan o WellFest eleni. Bu ein YLAB yn gweithio'n galed drwy gydol y dydd, ac rydym yn hynod ddiolchgar am yr amser, yr ymdrech a'r ymroddiad y maent yn eu rhoi i'r prosiectau hyn.

Drwy gydol y dydd, croesawyd dros 1,400 o bobl i'r digwyddiad, ac roedd yn wych gweld cymaint o bobl yn mwynhau'r gweithgareddau a'r adloniant oedd ar gael. Os oeddech chi'n bresennol, gobeithiwn eich bod wedi mwynhau'r diwrnod cymaint ag y gwnaethom ni.

Os hoffech rannu eich barn am y digwyddiad, ewch i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a chwiliwch am y ffurflen adborth. Byddem wrth ein bodd yn clywed eich sylwadau a'ch syniadau.



Cymdeithasu Haf i Bobl Ifanc

Rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn yn cynnal ail Ddigwyddiad Cymdeithasol Haf i Bobl Ifanc ym mis Gorffennaf yn Sir y Fflint. Os oes gennych bobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn mynychu, cysylltwch â ni.

Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed, gan roi cyfle iddynt gysylltu, meithrin cyfeillgarwch newydd, a chwrdd â phobl ifanc o sefydliadau ledled Gogledd-ddwyrain Cymru mewn amgylchedd hwyliog a chroesawgar.

Bydd y diwrnod yn cynnwys:

- Gweithgareddau torri'r iâ a gweithgareddau awyr agored
- Cyfleoedd i rwydweithio a chwrdd â phobl newydd
- Gweithdai a sesiynau rhannu syniadau
- Bwyd a barbeciw
- Cerddoriaeth ac adloniant

Gweithio gydag Ysgol Clywedog

Mae'r gwaith yn parhau gyda Chyngor Ysgol Ysgol Clywedog, sydd wrthi'n brysur yn cynllunio Diwrnod Diwylliant cyffrous a gynhelir ar 8 Gorffennaf. Mae aelodau'r cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i drefnu'r digwyddiad ac yn edrych ymlaen at ddathlu'r amrywiaeth o ddiwylliannau, traddodiadau a chefnidiroedd sy'n cael eu cynrychioli yn ein cymuned ysgol.

Mae'r diwrnod yn addo bod yn gyfle gwych i ddisgyblion ddysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu profiadau, a chofleidio'r amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog sy'n gwneud ein hysgol yn lle mor fywiog a chroesawgar i ddysgu.

MEDDWL YMLAEN - T2



AR Y GWEILL...

- Mae rhagor o benodau o'n podlediad wrthi'n cael eu datblygu, gyda aelodau'r YLAB yn gweithio'n weithredol ar gynnwys newydd. Nod y penodau sydd ar ddod yw annog pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau meddwl beirniadol ymhellach, tra'n archwilio materion allweddol sy'n bwysig i bobl ifanc heddiw.
- Mae'r gwaith o gynllunio'r Digwyddiad Cymdeithasol Haf i Bobl Ifanc yn mynd rhagddo'n dda. Wrth i ni baratoi ar gyfer y digwyddiad ym mis Gorffennaf, rydym yn cysylltu â nifer o sefydliadau, ac mae dal amser i gael eich pobl ifanc i gymryd rhan yn y digwyddiad cyffrous hwn.
- Mae cynlluniau hefyd ar y gweill ar gyfer taith gyffrous yr YLAB i Norwy y flwyddyn nesaf, wedi'i hariannu gan Taith. Bydd y profiad rhyngwladol hwn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, cydweithio diwylliannol a dysgu, gan gefnogi datblygiad ein harweinwyr ifanc ymhellach.



DOLENNI I DDIGWYDDIADAU PARTNERIAID

[NEWMIND - Life Warriors - Drop in Session - Mindfulness and Meditation](#)

[Community Cohesion Team - Diverse Together 2025](#)

[Family Info Service - Wellbeing Portal](#)

NOTES AND LINKS

- [YLAB Signup form](#)
- [Partnership Pack](#)
- [Procurement guidance](#)
- [Minutes from Last Partnership meeting](#)
- [Previous Newsletters](#)
- [Project Onedirve](#)
- ['Debatable Youth Episodes Playlist'](#)
- <https://linktr.ee/NEWMYMOF>

Awgrym Lles Mai: Gwnewch Amser ar gyfer Natur Wrth i'r dyddiau fynd yn hirach a'r tywydd wella, ceisiwch dreulio ychydig o amser yn yr awyr agored bob dydd. Boed hynny'n daith gerdded fer, chwarae yn yr ardd, neu fwynhau ychydig o awyr iach, gall bod ym myd natur helpu i leihau straen, gwella hwyliau a hybu lles cyffredinol. Gall hyd yn oed ychydig funudau y tu allan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'ch diwrnod.

